# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 14 TACHWEDD 2019

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Dewi Roberts (Cadeirydd).
Y Cynghorydd Beth Lawton (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Annwen Daniels, Alan Jones Evans, Gareth T.M.Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Owen ac Angela Russell.

**Swyddogion yn bresennol:** Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Craffu ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr)
Marian Parry Hughes (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Dafydd Gibbard (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo)
Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6a isod:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr)
Dafydd Paul (Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd)
Lowri Williams (Swyddog Gofal Cwsmer)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6b isod:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Geraint Wyn Jones (Swyddog Gofal Cwsmer)

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7 isod:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Meilys Heulfryn Smith (Rheolwr Rhaglen Trawsffurfio Iechyd a Gofal)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Anwen Davies ac R.Medwyn Hughes.
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol yn eitem 7 - Prosiect Gofal Cartref - am y rhesymau a nodir isod:-

- Y Cadeirydd, Y Cynghorydd Dewi Roberts, oherwydd bod ei wraig yn gweithio yn y maes gofal cartref yn ardal Dwyfor.
- Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams oherwydd bod ei wraig yn derbyn gofal cartref.
- Y Cynghorydd Angela Russell oherwydd bod ei thad yn derbyn gofal cartref.

- Y Cynghorydd Gareth T.M.Jones oherwydd bod ei fam yn derbyn gofal cartref.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem. Yn absenoldeb y Cadeirydd, cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Beth Lawton.

## 3 MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Medi, 2019 fel rhai cywir.

## 5. ARBEDION 2020/21

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc, yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo yn gwahodd y pwyllgor i graffu cynigion arbedion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Tai ac Eiddo i ddygymod gyda'u cyfran o'r bwlch £2m posib' yng nghyllideb 2020/21, ac ystyried beth fyddai hynny, neu'r opsiynau amgen, yn ei olygu.

Ymhelaethodd yr Aelodau Cabinet a'r penaethiaid ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

<u>Arbedion Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd</u>

Yn ystod y drafodaeth, mynegwyd pryder gan nifer o aelodau y byddai'r toriad o £30,000 i Cymorth i Ferched yn arwain at fwy o gostau i'r Cyngor yn y pen draw a phwysleisiwyd pwysigrwydd gwneud asesiad llawn o'r ardrawiad posib' ar y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd fod y cynlluniau hanesyddol yn uchelgeisiol iawn. Manylodd ar yr elfen a wireddwyd eisoes gan nodi bod tasglu wedi'i sefydlu i edrych oedd modd canfod gweddill yr arbedion yn rhywle arall. Nid oedd llawer o fanylder ar hynny ar gael eto, ond nododd y gallai ddod ag adroddiad yn ôl i'r pwyllgor maes o law.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr y gellid dod ag adroddiad y tasglu yn ôl i'r aelodau arsylwi arno, ond gan fod y Cabinet angen gwneud penderfyniad yn eithaf sydyn ar y cynigion arbedion, roedd amser yn brin.

<u>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant</u>

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Mynegwyd pryder yn gyffredinol ynglŷn ag effaith y cynigion arbedion ar drigolion bregus y sir a phwysleisiwyd pwysigrwydd monitro'r effaith.
- Mynegodd nifer o aelodau bryder neilltuol ynglŷn â'r cynnig i dorri dwy swydd Gweithiwr Cefnogol Iechyd Meddwl (£42,000) ar sail y galw cynyddol am y gwasanaeth yn sgil y cynnydd mawr mewn problemau iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Awgrymwyd bod angen mwy, nid llai o weithwyr, ac y byddai'r toriad hwn yn costio mwy i'r Cyngor yn y pen draw. Nodwyd hefyd bod iechyd meddwl yn flaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd, ac y dylai'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, roedd y gwaith yn cael ei basio ymlaen i'r cynghorau, heb adnoddau digonol ar ei gyfer.

- Mynegwyd pryder neilltuol gan nifer o aelodau ynglŷn â'r cynnig i leihau'r gyllideb ar gyfer cefnogi gofalwyr, yn cynnwys rhai cynlluniau ysbaid (£19,000). Pwysleisiwyd y byddai'r straen ar y teuluoedd a effeithid yn ddychrynllyd ac y byddai'r toriad hwn yn costio mwy i'r Cyngor yn y pen draw.

Ar nodyn cyffredinol, holwyd a oedd y Bwrdd Iechyd yn cyfrannu fel y dylent, e.e. roedd y gost o ofalu am bobl fregus sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbytai yn disgyn ar y Cyngor. Mewn ymateb, nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant fod yna berthynas dda rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor, gan gydnabod hefyd bod yna rai heriau, ond roedd o'r farn bod y sylw'n amlygu'r ddadl gref dros integreiddio iechyd a gofal ar lefel leol.

Mewn ymateb i ymholiad pellach ynglŷn â'r trefniadau rhannu arian rhwng y Bwrdd Iechyd a'r cynghorau ar lefel ranbarthol, nododd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y gallai'r Aelod Cabinet, y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ac yntau edrych ar hynny a dod â'r wybodaeth yn ôl i'r pwyllgor.

Mewn ymateb i sylwadau'r pwyllgor, nododd y Prif Weithredwr mai rôl y pwyllgor craffu oedd penderfynu, os bydd yn ofynnol i'r Adran ddod â chynigion arbedion ymlaen, ai'r cynigion a restrwyd yn yr adroddiad, neu gynigion eraill, fyddai'n cael lleiaf o ardrawiad ar bobl fregus y sir. Nododd hefyd na ellid gofyn i adrannau eraill ysgwyddo peth o'r baich gan fod pob adran o'r Cyngor yn yr un sefyllfa o orfod canfod eu cyfran hwy i gyfarch y swm o £2m.

Nododd yr Aelod Cabinet fod yr Adran wedi pwyso a mesur popeth yn drylwyr, ac y byddai effeithiau unrhyw gynigion eraill, nad oedd ar y rhestr, hyd yn oed yn waeth na'r hyn oedd gerbron.

Awgrymodd y Prif Weithredwr mai un ffordd bosib' ymlaen fyddai trwy ofyn i'r Adran edrych ar y meysydd lle mae'r gwariant mwyaf, megis y maes pobl hŷn yn ei gyfanrwydd a chytundebau 3ydd sector.

Yn sgil sylwadau'r Prif Weithredwr ac amharodrwydd y pwyllgor i dderbyn y cynigion i dorri yn y meysydd iechyd meddwl a gwasanaethau gofalwyr, awgrymwyd y dylid gofyn i'r Adran edrych am ragor o doriadau yn y ddau faes lle mae'r gwariant mwyaf, sef cytundebau 3ydd sector neu'r gwasanaethau i bobl hŷn.

<u>Adran Tai ac Eiddo</u>

Yn ystod y drafodaeth, llongyfarchwyd yr Adran ar eu dull o ganfod arbedion drwy fewnoli elfennau o'r gwaith a chroesawyd eu bwriad i edrych ar bob cyfle tebyg yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â'r cynlluniau na wireddwyd, eglurodd y Pennaeth Tai ac Eiddo fod yr Adran yn chwilio am gynlluniau eraill. Byddai trafodaeth ar hyn yn y cyfarfod herio perfformiad nesaf a gobeithid gallu adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn yn y Flwyddyn Newydd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo cynigion yr Adran Tai ac Eiddo i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol fel rhai sydd gydag ardrawiadau lleiaf ar drigolion.**

**(b) Derbyn yr adroddiadau ar gynigion yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol a gofyn i'r Cabinet ystyried sylwadau'r pwyllgor o ran ai'r rhain sydd wirioneddol yn cael yr ardrawiad isaf cyn cymeradwyo'r arbedion hynny.**

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YMDRIN Â CHWYNION GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2018/19

### (A) ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YMDRIN Â CHWYNION A CHEISIADAU GWYBODAETH GAN YR ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD AR GYFER 2018/19

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn rhoi trosolwg o'r cwynion a'r ceisiadau gwybodaeth a datganiadau o werthfawrogiad a dderbyniwyd yn ystod 2018/19.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Mynegwyd gwerthfawrogiad y pwyllgor o waith caled y staff a nodwyd ei bod yn galonogol gweld bod cyn lleied o gwynion wedi'u cyflwyno a chyn lleied o'r cwynion hynny wedi mynd ymlaen i Gam 2.

Nodwyd, er bod yr wybodaeth hanesyddol yn gynwysedig yn yr adroddiad, y byddai'n fuddiol gweld y ffigurau ar ffurf tabl, er mwyn gweld yn glir oes patrwm wedi datblygu.

Gan gyfeirio at gŵyn GC/3257-15 yn Atodiad 3 i'r adroddiad, ac yn benodol farn gref yr Ombwdsmon y dylai hyfforddiant ar awtistiaeth fod ar gael i bawb o fewn yr Adran, ac nid i staff Derwen yn unig, holwyd a fu unrhyw ddatblygiad pellach ar hynny. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd:-

- Yn ychwanegol i'r cwestiwn o hyfforddiant, bod cwestiwn ynglŷn â gallu'r gweithwyr cymdeithasol i ymdopi â sefyllfaoedd lle mae yna elfennau hynod o arbenigol o fewn asesiadau.
- Bod gwasanaeth newydd yn ei le erbyn hyn ar lefel Gogledd Cymru a threfniant yn ei le fel bod timau o fewn gwasanaethau plant yn gallu cael esboniad o'r hyn y gellir ei gynnig yn ychwanegol i'r hyn oedd yn bodoli yn flaenorol.
- Bod plethiad rhwng hyn â phethau megis canllawiau mynediad i wasanaeth Derwen, ac ydi rhywun sydd ag awtistiaeth ac sydd â gallu ac yn gallu gweithredu'n annibynnol yn cael ei ystyried yn anabl, ayb.
- Gan hynny, roedd yna lawer o gymhlethdod yn yr achos hwn rhwng y cyngor cyfreithiol a roddwyd, yr hyn mae'r ddeddf yn ddweud a'r hyn mae'r Ombwdsmon wedi dyfarnu ynghylch sut ddylai hynny gael ei ystyried.
- Yn dilyn her ddiweddaraf yr Ombwdsmon, y comisiynwyd arbenigwr ym maes awtistiaeth i roi cymorth pellach i'r Cyngor i sicrhau bod y trefniadau'n gryfach i'r dyfodol.
- Gan fod yna lobi gref ar gyfer y math yma o wasanaethau arbenigedd, bod cryn bwysau ar y Cyngor i fedru asesu yn unol â'i ddyletswyddau, ond y credid bod y plethiad newydd gyda gwasanaeth y Gogledd o gymorth i atgyfnerthu hynny.
- Y rhoddwyd ymateb i'r Ombwdsmon ar hynny a bod yna drafodaeth bellach rhwng y Cyngor a'r Ombwdsmon ynglŷn ag i ba raddau mae'r Ombwdsmon yn fodlon gyda'r camau mae'r Cyngor wedi rhoi mewn lle erbyn hyn.

Nododd yr Aelod Cabinet na ddymunai i'r pwyllgor fynd i ormod o drafodaeth ar y mater hwn gan fod yr achos yn un byw ac yn cyfeirio at unigolyn. Eglurodd nad oedd gan y Cyngor lawer o brofiad o ddelio gyda'r Ombwdsmon, gan mai un achos yn unig a welwyd mewn sawl blwyddyn, ac awgrymodd y gallai'r Prif Weithredwr ymhelaethu

ar lle mae'r Cyngor wedi cyrraedd o ran ymateb a datblygu'r berthynas gyda'r Ombwdsmon.

Nododd y Prif Weithredwr:-

- Y bu hwn yn achos anodd dros ben, a gan nad oedd yr Adran wedi cael llawer o achosion lle mae'r Ombwdsmon yn dyfarnu yn ei herbyn, efallai na lwyddwyd i newid ein egwyddorion gweithredu i'r rhai y byddai'r Ombwdsmon wedi dymuno eu gweld.
- Y derbyniwyd llythyr gan yr Ombwdsmon yn sgil ei ail adroddiad yn datgan pryder ynglŷn ag elfennau o'r hyn a wnaethpwyd.
- Y byddai'n mynd i weld yr Ombwdsmon yr wythnos ganlynol a'i fod o'r farn mai trafferthion cyfathrebu oedd bennaf wrth wraidd hyn.
- Ei fod yn weddol hyderus bod y Cyngor wedi ceisio gwneud y peth iawn, ond wrth wneud hynny wedi anghofio bod rhaid cadw at lythyren yr hyn a gytunwyd gyda'r Ombwdsmon.
- Y bu i'r Ombwdsmon nodi yn ei adroddiad cyntaf y byddai'n disgwyl i'r Cyngor hyfforddi ei holl weithwyr cymdeithasol ar y drefn gwynion o fewn 12 mis, fel eu bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau os ydynt yn adnabod unigolyn sydd eisiau cwyno. Er bod yr adroddiad i'r pwyllgor hwn a'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ym mis Gorffennaf yn nodi y 'bydd' sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnal, roedd yr Ombwdsmon wedi ei gythruddo gan fod cyfarfod y Cabinet ym mis Gorffennaf ddeufis ar ôl yr adeg y dylai'r hyfforddiant fod wedi'i gwblhau.
- Oherwydd y bu dryswch hefyd ynglŷn â geiriad un o argymhellion yr Ombwdson ynglŷn ag asesu'r rhieni, nid oeddem chwaith wedi cyd-fynd â chymal arall y bu i ni gytuno i'w gyflawni.
- Bod argymhellion yr adroddiad wedi'u gweithredu bellach a'r asesiad ar gyfer y rhiant yn digwydd hefyd, ac y byddai'n adrodd hyn yn ei gyfarfod gyda'r Ombwdsmon.

Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â chyfleusterau chwarae ar gyfer plant yn Hafan y Sêr, nododd yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd fod cytundeb bellach rhwng y gwasanaethau o ran symud hyn ymlaen. Diolchwyd i'r aelod am ei ymyrraeth, oedd wedi bod o gymorth i chwalu'r rhwystrau.

Nodwyd bod yna werthfawrogiad mawr o'r ddarpariaeth yn Hafan y Sêr a nodwyd y dylid anfon at y staff i ddiolch iddynt am eu holl waith.

Ar ran y Gwasanaeth, diolchodd yr Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd i'r Swyddog Gofal Cwsmer am ei holl waith. Mynegodd yr aelodau eu diolchiadau i'r swyddog hefyd, ac i'r holl swyddogion a enwyd yn Atodiad 4 i'r adroddiad (rhestr enghreifftiau o werthfawrogi 2018/19), a rhai na enwyd efallai, gan ofyn bod neges yn mynd yn ôl i'r Adran yn cyfleu gwerthfawrogiad y pwyllgor o'u gwaith gwerthfawr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## (B) ADRODDIAD BLYNYDDOL CWYNION AC YMHOLIADAU OEDOLION IECHYD A LLESIANT 2018/19

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhoi trosolwg o'r cwynion, ymholiadau a datganiadau o werthfawrogiad a dderbyniwyd yn ystod 2018/19.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Llongyfarchwyd yr Adran ar y lleihad yn nifer y cwynion a mynegwyd gwerthfawrogiad y pwyllgor o waith caled y staff.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 7. PROSIECT GOFAL CARTREF

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Is-gadeirydd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon, oherwydd buddiant y Cadeirydd yn y mater dan sylw.

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhoi diweddariad cryno o'r gwaith oedd yn digwydd i sicrhau model newydd ar gyfer darpariaeth gofal cartref yng Ngwynedd.

Ymhelaethodd yr Aelod Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Nodwyd bod y model newydd hwn ar gyfer darpariaeth gofal cartref yn gosod Gwynedd ar flaen y gad.
- Croesawyd y pwyslais ar gyfathrebu gyda'r gweithwyr.
- Croesawyd y cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gyflwyno'r achos busnes i'r Pwyllgor Cyllid a Chynllunio, a mynegwyd gobaith y byddai cyd-gomisiynu'n digwydd, gan y byddai hynny'n dod â buddion i'r ddau bartner.
- Nodwyd ei bod yn galonogol clywed, petai rhai darparwyr yn tynnu allan / ddim yn cyrraedd y gofynion, bod gan y Cyngor ddarparwyr mewnol o faint sylweddol fyddai'n gallu cyflogi'r staff.

Nodwyd y byddai'r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth bellach wrth i'r gwaith symud yn ei flaen ac y byddai angen trafod gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd hefyd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 1.35 y.h.

**CADEIRYDD**